Cyngor Cymuned  Ebrill 20 2017 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol ;  Islwyn Jones, Huw Griffith, Peter Tandy, Morgan Morgans, Dai Jones, Fred Jones, Lyn Davies, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, a'r clerc.
Ymddiheuriad : Margaret Lewis

Cymerwyd y gadair gan yr is-gadeirydd Peter Tandy.

Darllenwyd  cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chytunwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Cytundeb Cronfa Gymunedol Llety'r Bugail.  Dychwelwyd y cytundeb ond nid oes unrhyw ddatblygiadau pellach.

Cyfraniad i Bethel.  Adroddodd Lyn Davies iddo siarad â pherchnogion adeilad y capel a chael ar ddeall fod trefniadau mewn llaw i drosglwyddo'r adeilad i ymddiriedolwyr er mwyn ei ddefnyddio er lles y Gymuned.  Cytunwyd i aros i'r trefniadau hyn gael eu cwblhau cyn anfon y rhodd arferol o £200.

Adroddwyd i'r sbwriel wrth fynedfa'r goedwig tu hwnt i groesffordd Tynllwyn gael ei glirio

Gohebiaeth
Derbyniwyd gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu Mis Ebrill, papurau yn ymwneud â'r etholiadau lleol, hysbysiad am gyfarfod o Bwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru yn Aberaeron nos Fercher 26ain Ebrill, a chais am gyfraniad wrth bwyllgor Gefeillio Aberystwyth/Kronberg wrth ddathlu 20 mlynedd o gyfnewid.
Poster Cymru i Bawb.  Penderfynwyd anfon atynt i gofnodi cefnogaeth y Cyngor i'w datganiad.
Zurich yn gofyn a oedd angen quote am yswiriant.  Ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i aros gyda AON am o leiaf flwyddyn arall.
Gwahoddiad i gyfarfod i roi gwybod am yr hyfforddiant sydd ar gael ar y Cod Ymddygiad newydd i'w gynnal yn Aberaeron dydd Llun 15 Mai rhwng 18.30 a 20.00.  Cytunwyd y byddai'r clerc yn mynychu'r cyfarfod.
e-bost wrth glerc Llangoedmor a St Dogmaels yn dweud bod eu diffibriliwr wedi cael eu fandaleiddio.

Ariannol

Dosbarthwyd copiau o'r cyfrifon ariannol blynyddol, ac fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Edrychwyd ar y ffurflen gyfrifo flynyddol oddi wrth yr archwilwyr allanol a gweld bod gofynnion ychwanegol gwahanol eleni. Cytunwyd bod y clerc i gael cyngor yr archwiliwr mewnol wrth gwblhau'r ffurflen.

Arian yn y banc ar 31 Mawrth- £490.95 Cyfrif rhif 2 - £4476.48

Awdurdodwyd talu bil trydan - £41.83, a thalu cyflog y clerc £200 ddiwedd y mis.

Unrhuw fater arall.
Tynnwyd sylw at y ffaith fod arwyddion cyflymder 30 wrth ddod i mewn i'r pentref heibio'r fynwent wedi colli eu lliw gymaint fel ag i fynd yn anelwig. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r adran ffyrdd yn Aberaeron.

Nodwyd fod angen cywiro drws y ciosg ffôn ger Moreia, lle cedwir y diffibriliwr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynyddol, fydd Mai 18

Yn ddiweddarach newidiwyd y dyddiad i Mai 25